# Theatr Clwyd

Cynorthwy-ydd Blaen Tŷ
Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug

**Contract Tymor Penodol**
**2 x 20 Awr contract am 9 wythnos. 19eg Tachwedd – 20fed Ionawr.**
**20 Awr contract am 5 wythnos. 17eg Rhagfyr – 20fed Ionawr.**
**20 Awr contract am 4 wythnos. 10fed Rhagfyr – 6ed Ionawr.**
**20 Awr contract am 3 wythnos. 17eg Rhagfyr – 6ed Ionawr.**

**10 Awr contract am 6 wythnos. 26ain Tachwedd – 6ed Ionawr.**
**10 Awr contract am 4 wythnos. 10fed Rhagfyr – 6ed Ionawr.**
**2 x 10 Awr contract am 3 wythnos. 17eg Rhagfyr – 6ed Ionawr.**

**Graddfa TC07 - SCP 6-7**
**(Cyflog o £16,394 - £16,495 pro-rata)**

Mae'r Adran Gweithrediadau'n gyfrifol am swyddogaethau logisteg yr adeilad. Yn rhan greiddiol iddi mae hybu a chynnal profiad rhagorol i'r gynulleidfa a sicrhau bod Theatr Clwyd yn amgylchedd croesawus a diogel i'r cyhoedd, artistiaid sy'n ymweld, a staff.

Gyda dyfodiad y tîm Gweithredol newydd yn ddiweddar - y Cyfarwyddwr Artistig, Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Liam Evans-Ford, mae Theatr Clwyd yn mynd drwy gyfnod cyffrous o newid, gan adeiladu ar ragoriaeth a balchder y gorffennol i greu canolfan ddeinamig a chreadigol ar gyfer y dyfodol. Mae Theatr Clwyd yn theatr i bawb – i'n cymuned leol deyrngar, y staff brwd, artistiaid cenedlaethol a rhyngwladol ac wrth gwrs, ein cynulleidfa angerddol ac amrywiol.

Dylai ymgeiswyr fod â phrofiad blaenorol o weithio mewn rôl sydd â'i ffocws ar y cwsmer mewn amgylchedd tebyg, a bod yn barod i weithio oriau hyblyg, gan gynnwys gyda'r nos, dros y penwythnos ac ar wyliau banc.

Mae'n ofynnol i'r swydd wag hon gael ei llenwi gan ymgeisydd sydd dros 18 oed oherwydd bydd angen gweithio tu ôl i'r bar ar eich pen eich hun yn achlysurol.

Am drafodaeth anffurfiol, cysylltwch ag:
Enw: Laura Gray
Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Ffôn: 01352 701861

Rydym yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer ein cyflogeion dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd byddwn yn cefnogi cyflogeion newydd a phresennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.

Bydd trefniadau rhan amser, rhannu swydd a gweithio hyblyg yn cael eu hystyried.